

Cyngor Cymuned Llanelian (326)

Cofnodion cyfarfod Awst 21 2020 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 11 o'r gloch.

Presennol: Elfyn Hughes, Dafydd Griffiths, Glenys Jones, Helen Hughes, Ian Evans, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Thomas Jones, Arfon Morgan

Yn absennol: John Griffiths, Hefina Williams

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod arbennig wedi ei alw i drafod gwelliannau ffordd a chynnigion CSYM i'r pentref.

2 Datgan Diddordeb

Carol Whitaker, nodwyd ei bod yn byw yng nghanol y pentref yn Dinorben Terrace ond nad oedd budd personol unigol. Byddai gwelliannau i'r lonydd o fudd i holl driglion y plwyf.

3 Mesurau Diogelwch Ffyrrdd Penysarn

Cynnigodd Dafydd Griffiths bod y Cyngor Cymuned yn awgrymu pump gwelliant i CSYM:

- 1) Cyfyngiad cyflymder priodol drwy'r pentref
- 2) Hwyluso trafndiaeth cyhoeddus
- 3) Edrych ar y drefn i annog beicio a sgwtio i'r ysgol gynradd
- 4) Adolygu'r drefn parcio ar y stryd
- 5) Edrych ar feicio a cherdded yn gyffredinol

Trafodwyd **lleihau'r cyfyngiad cyflymder o 30mya i 20mya** drwy'r pentref a heibio'r ysgol. Cytuno byddai hyn yn fwy effeithiol na thwmpathau atal gyrru. Cytuno yn unfrydol gofyn am leihau'r cyfyngiad o 30mya i 20mya.

Trafodwyd y posibilrwydd o **system un ffordd drwy'r pentref**, o gyfeiriad Marie Curie i'r sgwar. Byddai angen barn proffesiynol swyddogion CSYM, trafodwyd y posibilrwydd o'r lon fod yn un ffordd o fynediad Stad Tynrhos hyd Stad Penysarn Fawr.

Roedd Dafydd Griffiths yn anghytuno gan nodi byddai angen dilyn hierarchaeth Llywodraeth Cymru gydag unrhyw welliannau: Cerddwyr, beicwyr, trafndiaeth cyhoeddus, gwasanaethau brys, casglu sbwriel, pawb arall.

Teimlai aelodau eraill fodd bynnag byddai'r unig wrthwynebiad posib gan feicwyr, gan nodi bod plant yn dueddol o reidio eu beic a sgwter ar y palmant gyda'u rhieni. Cytuno gofyn i Alun Roberts am arweiniad.

Nodwyd bod y Cyngor wedi trafod yn y gorffennol **llinellau melyn i lawr un ochr drwy'r pentref** er mwyn hwyluso cerbydydau a thrafnidiaeth cyhoeddus i symud drwy'r pentref heb geir wedi parcio ar ymyl y lon ac ar y palmant. Byddai llinellau melyn i lawr un ochr o'r lon yn hwyluso byssus, gwasanaethau brys, cerbydau casglu sbwriel... pawb ond am rheini sydd am barcio yno.

Roedd peth pryder fodd bynnag y gall llinellau melyn alluogi i gerbydau deithio yn gynt gan na fydd unrhyw gerbydau wedi eu parcio ar hyd y ffordd. Nodwyd byddai posib gosod camerau cyflymder a mesurau gorfodaeth eraill petai'r cyflymder wedi ei ostwng o 30mya i 20mya. Cytuno gofyn am farn proffesiynol Alun Roberts ar y mater. Nodwyd bod tynnu'r llinellau gwyn o ganol y lon a pharcio pob yn ail ochr i wneud chicanes yn un mesur posib.

Gofynnodd Glenys Jones a fyddai posib cael **arwyddion plant** a henoed yn y pentref i

atgoffa gyrrwyr, a hefyd os oedd posib edrych ar **gyffordd Lon yr Ysgol**. Roedd yr aelodau yn cytuno, teimlwyd bod y flaenoriaeth y ffordd anghywir ac yn creu peryg heb fod angen. Nodwyd mai y ffordd arall oedd y flaenoriaeth pan fu gwneud y gwaith addasu ar y gyffordd. Gofynnodd Ian Evans a fyddai posib cael arwyddion yn fflachio y tu allan i'r ysgol pan fydd rhieni yn danfon a no leu plant? Mae arwyddion o'r fath mewn ardaloedd eraill.

Gofynnodd Dafydd Griffiths i'r cadeirydd ofyn i Alun Roberts pa ganllawiau Llywodraeth Cymru neu San Steffan fydd rhai i CSYM eu ystyried cyn gwneud penderfyniad am gynnigion y Cyngor Cymuned ac ymgymryd a'r gwaith.

Nododd Carol Whitaker bod y gwrych ar dir CSYM gyferbyn a'r Bedol angen sylw. Yn aml mae cerbydau yn do di fewn i'r pentref ar yr ochr anghywir o'r lon ac mae'n amhosib gweld heibio'r gwrych. Y cleric gysylltu a'r adran briffyrdd i drefnu ei dorri eto.

Bu i Alun Roberts, Swyddog Priffyrdd CSYM ymuno a'r cyfarfod am 11.30.

4 Cyflwyniad a Thrafodaeth – Cynnigion CSYM (Alun Roberts – Adran Briffyrdd)

Croesawyd Alun Roberts i'r cyfarfod a diolchwyd iddo am ei amser i drafod cynnigion y Cyngor Cymuned. Nodwyd bod yr aelodau wedi bod yn trafod rhai mesurau ers rhai misoedd ond bod y sefyllfa gyda'r pandemic wedi rhoi taw ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Fe ofynnodd Alun Roberts am fwy o wybodaeth am y cynnigion dan sylw ac fe'u trafodwyd un ary tro:

20mya drwy'r pentref a heibio'r ysgol

Cadarnhaodd Alun Roberts bod bwriad i gyflwyno parth 20mya tu allan i ysgolion y sir, gan symus yr arwyddion 30mya yn bellach allan, gosod arwyddion ychwanegol a chyflwyno twmpathau os oes angen.

Cadarnhaodd bod arian ar gael ar gyfer gwelliannau eraill yn y pentref yn ychwnaegol i'r arian i ddatblygu parth 20mya tu allan i'r ysgol. Mae'r arian yma ar gyfer diogelu ffyrdd ar gyfer cerdded a beicio, nodwyd bwriad hir dymor Llywodraeth Cymru oedd i newid ardaloedd 30mya i 20mya o fewn pentrefi.

Mae'r Cyngor Cymuned eisioes wedi codi ymwybyddiaeth o'u pryder am y sefyllfa ar Lon yr Ysgol, cadarnhaodd Alun Roberts nad oedd angen i'r Cyngor Cymuned gymryd unrhyw gamau pellach, bydd y cynllun 20mya yn digwydd.

Nododd Alun Roberts y byddai yn anfon map i gadarnhau yr ardaloedd fyddai yn 20mya; cadarnhaodd yr aelodau eu bod am i pob ardal sydd ar hyn o bryd yn 30mya i fod yn 20mya. Cadarnhaodd Alun Roberts y byddai yn trefnu'r arolygon perthnasol a symud ymlaen a'r cynllun.

System un ffordd drwy'r pentref

Trafodwyd y posibilrwydd o ddod i fewn i'r pentref ger y Bedol ac allan heibio i Gapel Bosra, nodwyd bod hyn yn dilyn y patrwm parcio gyfredol. Nodwyd byddai angen mynediad i Stad Tynrhos cyn dod yn un ffordd neu byddai creu mwy o broblem. Nododd Alun Roberts y byddai cyfarfod ar y safle yn fuddiol. Nododd hefyd byddai ymgynghori a'r gwasanaeth brys, os na fyddai cefnogaeth, ni fyddai symud ymlaen a'r cynnig.

Llinellau melyn

trafodwyd paentio llinellau melyn drwy'n pentref o Maes Llwyfo hyd Penysarn Fawr. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o gerbydau yn teithio yn gynt wrth wybod na fyddai unrhyw gerbyd yn dod i'w gwynebu. Byddai angen cyfarfod ar y safle i weld sut mae'r lon yn troelli a sut mae gyrrwyr yn gweld y lon (visibility / sight line).

Cytuno byddai'r aelodau sydd ar gael yn cwrdd ag Alun Roberts ger Maes Llwyfo am 11 o'r gloch bore Llun Awst 24 2020.

Byddai posib hefyd adnabod ardaloedd ble mae angen dropped kerbs er mwyn hwyluso cerddwyr a beicwyr, nododd Alun Roberts bos arian ar gael ar gyfer lledu'r palmentydd a gosod bolards os oes angen.

Fe ofynnodd Dafydd Griffiths os oedd CSYM yn bwriadu ymgynghori a Sustrans hefyd han fod y ffordd tn rhan o lwybr beicio dynodedig. Cadarnhaodd Alun Roberts eu bod yn ymgynghori a hefyd yn trafod gyda chontractwyr trafndiaeth cyhoeddus.

Fe ofynnodd Elfyn Hughes i Alun Roberts pa ganllawiau y dylai'r cyngor ei ystyied er mwyn sicrhau bod y gwelliannau yn welliannau i bawb. Nododd Alun Roberts bod y swm arian yma yn bebodol ar gyfer hywryddoteithio cynladwy, teimlodd bod y gwelliannau yma yn cyd fynd a gofynnion yr arian a'r canllawiau. Nododd bod pob ardal yn ungryw ac felly byddai cynigion a gyfer gwelliannau yn wahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd.

Nododd Elfyn Hughes byddai posib (ar gost sylweddol) datblygu llwybr beicio diogel y tu cefn i Tai Mwd, byddai o bosib yn cysylltu'r ddau gae chwarae. Cofnodwyd y syniad ar gyfer y dyfodol.

Cytuno yn unfrydol bod angen edrych ar ffyrdd o gerdded a beicio i'r ysgol gynradd yn ddiogel. Ar hyn o bryd mae rhaid croesi o un ochr y ffordd i'r lall. Cytuno edrych ar y mater wrth gyfarfod ar y safle ddydd Llun. Wrth drafod diogelwch wrth deithio i'r ysgol, nododd Ian Evans bod angen edrych ar y blaenoriaeth ay y gyffordd hefyd, ei fod yn achosi peth anhawster wrth i bobl orfod mynd yn ol i'r lon fawr, neu ar y palmant i allu pasio eu gilydd. Tra bu i'r gwaith ar y gyffordd gael ei wneud roedd y blaenoriaeth y ffordd arall.

Bu i Dafydd Griffiths ofyn pa welliannau oedd ar y gweill ar gyfer yr A5205 Valley i Dulas. Cafwyd wybod bod CSYM yn bwradu gosod palmant ger y safle bws ym Mhen Wrach tuag at Llaneuddog.

Diolchwyd i Alun Roberts am ei amser a cadarnhawyd manylion cyfarfod bore Llun. Y clerc i anfon copi draft o'r cofnodion i'r holl aelodau dros y penwythnos a chadarnhau'r cyfarfod safle drwy ebost,

5

Camau Nesaf

Bydd cyfarfod ar y safle bore Llun Awst 24, 2020 am 11 o'r gloch.

Aelodau i gyfarfod ger Maes Llwyfo.

Bu'r cyfarfod orffen am 12 o'r gloch.

**Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd**